

STRATEGAETH GYFFURIAU 2010: CRYNODEB O'R YMATEB I'R YMGYNHGORIAD

Adroddiad ar ymgynghoriad y strategaeth gyffuriau Rhagfyr 2010

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
1. Gweledigaeth ar gyfer y Strategaeth Gyffuriau Newydd	5
2. Atal defnyddio cyffuriau	7
3. Cryfhau gorfodaeth, cyfiawnder troseddol a fframwaith cyfreithiol	9
4. Ailgloriannu triniaeth i gefnogi canlyniadau di-gyffuriau	11
5. Cefnogi adferiad er mwyn torri cylch dibyniaeth ar gyffuriau	13
6. Casgliadau	15
Atodiad 1 Cyswllt gwe i'r holiadur ymgynghoriad	16
Atodiad 2 Sefydliadau atebwyr	17

CYFLWYNIAD

CEFNDIR

Lansiwyd ymgynghoriad y Strategaeth Gyffuriau ar 20 Awst 2010, ei gau ar 30 Medi 2010 a'i draddodi i bartneriaid trwy wefan y Swyddfa Gartref www.drugs.homeoffice.gov.uk.

Cynlluniwyd y ddogfen ymgynghori (Atodiad I) er mwyn hel barn, yn bennaf gan y sector gyffuriau a rhan ddeiliaid eraill, i ddylanwadu ar ddatblygiad y strategaeth newydd. Roedd ynddo gyfanswm o 43 cwestiwn gyda blychau ar gyfer atebion penagored.

Seiliwyd y cwestiynau ar weledigaeth strategol y llywodraeth ac roeddynt yn cynnig themâu eang ar gyfer y strategaeth. Awgrymwyd ymateb trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein, trwy e-bostio'r ffurflen neu anfon copi caled i'w hystyried.

Daeth cymysgedd o atebion gan unigolion a grwpiau ac roedd yr atebwyr yn rhydd i benderfynu pa mor drylwyr y byddent yn cyfrannu i'r ymgynghoriad trwy ateb rhai yn unig neu bob un o'r cwestiynau a ofynnwyd. Rhannwyd yr atebion rhwng yr Adrannau perthnasol hynny o'r Llywodraeth oedd â rhan yn natblygiad y strategaeth.

Y STRATEGAETH GYFFURIAU NEWYDD (TEITL I'W FEWNOSOD)

Ffocws a chwmpas cyffredinol y strategaeth gyffuriau newydd yw pob cyffur anghyfreithlon a niweidiol. Fodd bynnag, ar gyfer y gweithgareddau hynny lle mae angen mynd i'r afael â chyffuriau a diodydd meddwol, cydnabyddir hynny, yn enwedig ym meysydd triniaeth ac adferiad. Mae'r strategaeth gyffuriau newydd am fynd i'r afael ag atal a lleihau camddefnydd o sylweddau o bob math.

Mae'r strategaeth gyffuriau newydd wedi ei strwythuro o gwmpas tair thema:

- Lleihau'r galw - creu amgylchedd lle mae pobl sydd heb gymryd cyffuriau yn dal i beidio gwneud a'i gwneud yn haws i'r rhai hynny sydd yn eu defnyddio i roi'r gorau i'r arferiad.
- Cyfyngu cyflenwad - mae cyffuriau yn costio £15.4 biliwn i'r DU yn flynyddol. Rhaid ymosod ar elw'r cyflenwyr cyffuriau ac ychwanegu at y risg maent yn ei gymryd er mwyn i'r DU ymddangos fel lle llai deniadol ar gyfer eu gweithredoedd.
- Creu awyrgylch o adferiad mewn cymunedau - bydd y Llywodraeth hon yn gweithio gyda phobl sydd eisiau cymryd y camau angenrheidiol er mwyn torri eu dibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol, a byddwn yn cynnig llwybr allan o'r ddibyniaeth hon trwy roi adferiad wrth galon popeth rydym yn ei wneud.

Amcanion blaenaf y strategaeth yw i

- Lleihau'r defnydd o gyffuriau anghyfreithiol a niweidiol; a
- Chynyddu'r niferoedd sydd yn gwella o'u dibyniaeth ar gyffuriau neu ddiodydd meddwol.

Tra bod rhai wedi awgrymu llacio neu ddad-droseddoli fel ffordd o ymdrin â chyffuriau, nid yw'r Llywodraeth yn teimlo bod hyn yn addas, gan ystyried y cynnydd tebygol mewn camddefnydd a'r niwed a ddaw yn sgil hynny, a chymhlethdod y problemau fyddai ynghlwm.

Crynodeb ar lefel uchel yw hwn o'r prif negeseuon a ddaeth o'r 1850 ymateb a gawsom a'u dylanwad ar ddatblygiad yr uchod.

I: GWELEDIAETH AR GYFER Y STRATEGAETH GYFFURIAU NEWYDD

Yn yr adran hon gofynnwyd i atebwyr a oedd yna agweddau allweddol ar leihau'r defnydd o gyffuriau nad oeddynt wedi eu cynnwys yn y weledigaeth ac a ddylid eu hystyried. Roedd hefyd yn gofyn i atebwyr ystyried beth oedd wedi gweithio neu heb weithio yn y gorffennol.

CRYNODEB O'RYMATEB

Teimlai rhai atebwyr bod y gorddibyniaeth ar gynnig rhagnodion amgen yn achos pryder a'u barn oedd bod angen talu sylw i'r mater hwn yn y strategaeth gyffuriau newydd.

Teimlwyd bod gwasanaethau holistig a gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr wedi gweithio'n dda yn y gorffennol ond bod angen agwedd fwy holistig, gyda materion cyffuriau yn cael eu hasesu a'u trin ochr yn ochr â materion eraill megis camddefnyddio diodydd meddwol, amddiffyn plant, iechyd meddwl, cyflogaeth a thai oll yn feysydd blaenoriaeth.

'Mae ein haelodau'n cefnogi'r prif amcanion a nodir yn y strategaeth ymgynghori ar gyffuriau. Maent yn croesawu'r ffocws ar adferiad ac (ail) integreiddio cymdeithasol ac yn canmol y gydnabyddiaeth bod darparu'r weledigaeth hon yn galw am agwedd holistig, gan barhau i chwalu muriau a thynnu ynghyd ystod o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau, yn genedlaethol ac yn lleol.

Teimlai rhai atebwyr y dylai'r strategaeth newydd roi sylw i ffocws ar iechyd gan gynnwys lleihau niwed ac iechyd meddwl, sydd yn cysylltu gyda'r agwedd holistig a amlinellwyd uchod. Roedd nifer helaeth o'r rhan ddeiliaid a dargedwyd wedi tynnu sylw at y ffaith na ddylai agwedd o ymwrthod anwybyddu lleihau niwed.

'Rhaid i unrhyw ymateb sydd yn pwysleisio canlyniadau heb gyffuriau i unigolion gydnabod a lleihau'r niwed a wynebir gan y rhai hynny sydd yn methu neu'n anfodlon rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau.'

Roedd atebwyr eraill yn teimlo bod ambell Ymyrraeth Cyfiawnder Troseddol heb weithio'n dda yn y gorffennol a bod lle i wella. Teimlid bod ymyrraeth yn y gorffennol wedi arwain at droseddu, heb sicrhau bod y gwasanaethau triniaeth addas mewn lle ar gyfer dedfrydau byrion.

Roedd safbwyntiau gwahanol ar beth oedd a beth nad oedd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, yn enwedig rhwng atebwyr o blith y cyhoedd a'r rhai hynny oedd ynghlwm â'r sector cyffuriau. Mae hyn yn tanlinellu'r ffaith bod angen gwneud mwy i gynnwys a galluogi'r gymuned ehangach yn eu huchelgais o hybu adferiad defnyddwyr cyffuriau.

YMATEB Y LLYWODRAETH

Mae'r strategaeth newydd yn cydnabod bod yn rhaid i'r fframwaith ddedfrydu gefnogi'r llysoedd wrth geisio dewisiadau ar wahân i garchar, dewisiadau fydd yn helpu troseddwr i fynd i'r afael â'u dibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol tra'n cydnabod hefyd bod angen carcharu rhai troseddwr.

Nid yw'r strategaeth newydd yn anwybyddu lleihau niwed. Mae'n cydnabod bod lleihau niwed yn dal i chwarae rhan mewn triniaethau. Bydd ymyrraeth megis cynnig rhagnodion amgen yn dal i chwarae rhan mewn triniaethau. Fodd bynnag, dylid ei ystyried fel y cam cyntaf ar y daith yn hytrach na diwedd y daith.

2: ATAL DEFNYDDIO CYFFURIAU

Roedd yr adran hon wedi ceisio barn yr atebwyr ar ba ddulliau oedd orau wrth atal defnyddio sylweddau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, a sut a pha bryd y dylid cyflwyno'r math hwn o weithgaredd.

CRYNODEB O'RYMATEBION

Wrth ymateb i'r thema o atal defnyddio cyffuriau, tanlinellwyd y ffaith bod addysgu yn rhan ganolog o'r strategaeth, gyda bron hanner yr atebwyr yn ei weld fel un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal camddefnyddio cyffuriau neu ddiodydd meddwol. Er bod teuluoedd (yn enwedig rhieni) yn bwysig, roedd gan ysgolion gyfrifoldeb clir ym maes atal camddefnyddio.

“Addysgu plant a phobl ifanc ar y risg gwirioneddol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio diodydd meddwol a chyffuriau fel y gallant wneud dewisiadau deallus am yr hyn maent yn ei roi yn eu cyrff.”

“Sicrhau bod ysgolion a staff yn cael hyfforddiant ac adnoddau ... i ddarparu addysg o ansawdd uchel am gyffuriau”

“Rhaid i bobl ddysgu'n ifanc am beryglon defnyddio cyffuriau”

Roedd pwyslais arbennig gan atebwyr ar addysg sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth sydd yn dangos effeithiau defnyddio cyffuriau, ac am onestrwydd ynghylch effeithiau pob cyffur. Teimlai nifer arwyddocaol bod angen mwy o bwyslais ar addysgu am ddiodydd meddwol.

“Addysg ffeithiol diduedd, yn cyflwyno'r risg o gymryd cyffuriau, a dangos yn glir potensial diodydd meddwol o fod yn gyffur niweidiol iawn.”

Roedd cefnogaeth gref am ymyrraeth cynnar gydag unigolion a theuluoedd ble roedd problemau yn dechrau datblygu.

“Dechrau addysgu pobl pan yn ifanc ac ymyrryd lle bo patrwm yn amlygu ei hun. Ni ellir gwaredu camddefnydd yn llwyr, ond bydd ymyrraeth cynnar yn cael effaith.”

Teimlid hefyd y dylid targedu grwpiau penodol sydd yn wynebu risg.

“Yn ogystal â gweithio gyda phobl ifanc, dylid targedu rhaglenni addysg yn benodol at y bobl ifanc hynny sydd wedi eu dynodi fel rhai bregus... neu'r rhai hynny sydd wedi eu heithrio o brif ffrwd addysg.”

“Ymyrraeth wedi ei dargedu at bobl ifanc o oedran addas, gan weithwyr gwybodus. Ffocws ar bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf.”

Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod angen i lawer o asiantaethau gwahanol ac unigolion weithio ar y cyd i atal camddefnydd o gyffuriau neu ddiodydd meddwol. Roedd cefnogaeth arbennig ar gyfer y sectorau gwirfoddol a chymunedol yn y broses o atal ac am gysylltu'r gwahanol wasanaethau sydd yn gweithio gyda phobl ifanc bregus, gan gynnwys gwirfoddolwyr sydd yn cefnogi addysg neu'n gweithredu fel mentoriaid.

Teimlai'r atebwyr mai 11 – 16 oedd yr oedran y dylid ei dargedu ar gyfer gweithgarwch atal, er bod rhai yn teimlo bod gweithio gydag ysgolion cynradd a darparwyr y blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth hefyd.

“Ffocws ar atal llawer cynt na'r arddegau. Gwneir llawer o niwed ym mlynyddoedd cynnar plentyn ac mae hyn yn cyfrannu at ddibyniaeth yn nes ymlaen lpan yn oedolion ifanc.”

Roedd y grwpiau a ystyrid yn flaenoriaeth benodol yn cynnwys 'pobl ifanc sy'n wynebu risg', troseddwyr ifanc, plant sydd mewn gofal a phlant sydd â'u rhieni yn wynebu problemau diodydd meddwol neu gyffuriau. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar ardaloedd daearyddol difreintiedig.

“Dylid cynyddu'r buddsoddi ym mhlant heddiw o'r blynyddoedd cynnar drwy gydol eu bywydau yn yr ysgol fel y mesur atal pwysicaf ar lefel y boblogaeth a Chymdeithas Fawr, gydag ymrwymiad tymor hir oddi wrth y llywodraeth. Trwy hyn dylid rhoi pwyslais ar leihau anghydraddoldebau er mwyn gosod sail prif fesur atal.”

Teimlai'r mwyafrif o'r atebwyr, 55%, bod angen i weithredu ataliol ffocysu ar bob cyffur (gan gynnwys diodydd meddwol), gyda 38% yn nodi y dylid ffocysu ar y rhai hynny sy'n peri'r niwed mwyaf. Tanlinellodd yr atebwyr y ffaith bod pobl ifanc yn tueddu defnyddio ystod eang o gyffuriau, a bod pob math o sylwedd yn gallu peri niwed i blant ifancach.

YMATEBY LLYWODRAETH

Mae'r strategaeth yn awgrymu dulliau o atal sydd yn dechrau ym mlynyddoedd cynnar bywyd fel rhan o agwedd fwy cyffredinol at gynnig cefnogaeth, yn enwedig i deuluoedd dan anfantais.

Mae'n gwneud yn glir mai ar atal defnydd a niwed ddylai'r ffocws fod ym mhob gweithgaredd gyda'r bobl ifanc sydd yn camddefnyddio cyffuriau a diodydd meddwol a hyn yn cynnwys atal pobl ifanc rhag dibyniaeth wedi iddynt ddod yn oedolion.

At hyn, mae'r strategaeth yn nodi swyddogaeth glir i ysgolion wrth addysgu disgyblion a chwarae rhan ehangach wrth atal camddefnyddio cyffuriau a diodydd meddwol, tra'n cydnabod pwysigrwydd darparu mwy o wybodaeth i'r rhai hynny nad ydynt yn yr ysgol ac i rieni.

Mae cefnogaeth wedi ei dargedu ac ymyrraeth cynnar yn rhan ganolog o'r strategaeth newydd. Gyda chymorth Grant Ymyrraeth Cynnar a Grant Iechyd Cyhoeddus bydd awdurdodau lleol yn medru datblygu dulliau clir o ymyrraeth cynnar gyda phobl ifanc a theuluoedd.

3: CRYFHAU GORFODAETH, CYFIAWNDER TROSEDDOL A FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Gofynnwyd i atebwyr roi sylwadau ar nifer o agweddau ar y thema hon gan gynnwys polisi ar ddedfrydu, gwahardd dros dro, darparu llety, gorfodi'r gyfraith a chyflenwi cyffuriau mewn carchardai.

Tra bod nifer wedi awgrymu llacio neu ddad-droseddoli fel ffordd o ymdrin â chyffuriau, nid adolygu'r fframwaith cyfreithiol presennol yw amcan yr ymgynghoriad hwn. Nid oedd yr ymgynghoriad wedi ceisio sylwadau penodol am y fframwaith cyfreithiol presennol ar gyffuriau yn y DU.

CRYNODEB O'RYMATEBION

Gwelwyd mai casglu a rhannu ymchwil, tystiolaeth a gwybodaeth oedd y prif themâu pan ofynnwyd sut allai'r Llywodraeth gadw ar y blaen ym maes cyffuriau a beth i'w ystyried wrth benderfynu galw am waharddiad dros dro. Roedd cyfathrebu gyda'r cyhoedd yn nodwedd bwysig hefyd, er mwyn i'r cyhoedd ddeall yn well sut a pham mae'r Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau ar y mater hwn.

[The Government should consider] “Clear evidence of harm as deduced by the drugs advisory committee, rather than political reasons/public outcry”

“Dylai'r Llywodraeth edrych ar ganlyniadau'r ymchwil (a) gwrando ar arbenigwyr.”

Y ddau brif bwynt oedd yn dangos bod defnydd o gyffuriau yn troi yn broblem oedd pan fyddai yn dechrau cael effaith negyddol ar y gymuned a'r teulu, a phan oedd effaith negyddol ar yr unigolion eu hun mewn perthynas â'u gwaith, iechyd a lles. Ystyrid hefyd bod troi at droseddu yn brawf bod defnydd o gyffuriau yn troi'n broblem.

Mewn perthynas â'r System Gyfiawnder Troseddol (CJS), roedd dros 50% o'r holl atebwyr yn teimlo y dylai'r CJS wneud rhywbeth yn wahanol. Teimlai'r atebwyr bod angen newid dedfrydau a bod angen triniaeth yn y gymuned a gwell cyfleoedd i gael triniaeth wrth ddelio gyda throseddwr sydd yn camddefnyddio cyffuriau. Daeth adlais o hyn wrth drafod cyffuriau mewn carchardai lle roedd rhai atebwyr yn awgrymu na ddylai troseddau yn ymwneud â chyffuriau gario dedfryd o gyfnod dan glo ond yn hytrach math arall o gosb.

“Naill ai rhwch ddedfrydau hirach dan glo neu orchmynion cymunedol sy'n fwy llym o lawer. Mae cyfnodau byr yn y ddalfa ond yn arwain at lawer o waith papur i'r gwasanaethu sydd yn effeithio ar gostau ond ddim yn gweithio fel ataliad i droseddwr sy'n defnyddio cyffuriau.”

Pan ofynnwyd i atebwyr pwy ddylai weithio yn y bartneriaeth i leihau troseddau yn ymwneud â chyffuriau mewn ardaloedd lleol, daeth yr asiantaethau cyfiawnder troseddol, yr heddlu a gofawyr iechyd ar ôl y gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol.

“Mae angen i Brofiannaeth, y Carchardai, Awdurdodau Lleol, Llysoedd, yr Heddlu ac Iechyd weithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymateb lleol ar y cyd i atal aildroseddu a hyn i gynnwys datrysiaid ynglŷn â thargedu ac ymyrraeth cynnar yn ogystal â chydlynu'r agwedd at ailsefydlu troseddwr yn hytrach na'u dedfrydu yn unig.”

Wrth ymdrin â llety, waeth pa fath, teimlwyd bod angen darparu lle gweddus, diogel a glân ac y dylai unrhyw lety oedd yn cynnig cefnogaeth fod yng ngofal pobl broffesiynol oedd wedi eu hyfforddi'n drylwyr. Dylid teilwria'r gefnogaeth ar sail anghenion unigolyn a'i gysylltu gydag adferiad ac ailsefydlu graddol.

“Cefnogaeth gref gymunedol therapiwtig ... Dylid gosod y ffocws ar ailsefydlu. Darparu sgiliau newydd a chyfleoedd ... helpu pobl i weld eu hunain fel rhan o'r gymdeithas ehangach a beth fedran nhw gyfrannu.”

Roedd dros hanner yr atebwyr yn meddwl bod angen cymell targedu'r rhai sydd yn delio gyda chyffuriau, ar lefel y stryd yn ogystal â grwpiau troseddol oedd wedi eu trefnu. Ystyrid bod targedu cyflenwadau o gyffuriau wrth iddynt gyrraedd y DU a ffiniau'r DU yn flaenoriaeth uchel wrth geisio lleihau'r cyflenwadau o gyffuriau/

Wrth ystyried talu a chyllido, teimlai'r mwyafrif bod angen defnyddio ystod eang o dulliau. Gallai'r dulliau amrywio o leihau'r defnydd o gyffuriau i ddychwelyd plant o gartrefi gofal i gynnal cyflogaeth. Roedd rhai atebwyr yn poeni bod gosod diwylliant o dalu fesur canlyniadau yn debyg o wrthrycholi defnyddwyr ac y gallai arwain at ddewis cleientiaid yn ofalus a bod yn greadigol wrth fesur ac adrodd yn ôl.

“Gall cyllido yn ôl canlyniadau fod ar fai yn y fan hyn, gan nad yw'r mater o gyfrifoldeb personol am weithgarwch rhywun, yn y pen draw, yn cael ei benderfynu na'i reoli gan eraill.”

Pan ofynnwyd am y camau y dylid eu cymryd i leihau cyflenwadau cyffuriau yn y carchar, roedd dros chwarter y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn meddwl bod angen ailedrych ar driniaeth cyffuriau mewn carchardai a bod angen ailystyried y polisi er mwyn lleihau'r cyflenwadau. Dylid parhau gyda'r driniaeth i bobl oedd eisoes yn cael eu trin (gwneir hyn) gyda'r dewis o gynyddu'r moddion amgen i gysglynau law yn llaw gyda dileu cysglynau, gan ei bod yn bosibl bod troseddwyr wedi bod yn defnyddio heroin yn ogystal â'u moddion amgen cyn cael eu dedfrydu.

Teimlid hefyd y dylid chwilio'n amlach am gyffuriau yn y carchardai er mwyn lleihau'r cyflenwad.

YMATEB Y LLYWODRAETH

Un o'r dair brif thema yn y strategaeth newydd yw “Cyfyngu Cyflenwadau” ac mae hyn wrth wraidd ystod eang o weithgareddau gorfodaeth o'r lleol i'r rhyngwladol.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i agwedd a seiliwyd ar dystiolaeth i sicrhau'r canlyniadau gorau oll i unigolion a chymunedau.

Mae'r Strategaeth Gyffuriau yn amlinellu'r uchelgais i gryfhau'r defnydd o ddedfrydau cymunedol i oedolion, gan gyfuno anghenion cyffuriau a diodydd meddwol gyda dewisiadau dedfrydu eraill.

Mae'r strategaeth yn amlinellu cynlluniau i arbrofi gyda'r syniad o daliadau yn ôl canlyniadau i annog cyflenwyr i helpu adferiad unigolion ond byddwn yn gweithio law yn llaw gyda'r meysydd peilot hynny i ddatblygu ffyrdd o weithredu ar y cyd; i sicrhau gochel yn effeithiol rhag materion megis y peryglon o ddewis a dethol a 'chwarae'r system.'

4: AILGLORIANNU TRINIAETH I GEFNOGI CANLYNIADAU DI-GYFFURIAU

Bwriad yr adran hon oedd hel sylwadau ar swyddogaeth asiantaethau triniaeth ac eraill, yn enwedig wrth gefnogi adferiad.

CRYNODEB O'RYMATEBION

Roedd llawer o'r atebion i'r ymgynghoriad yn cydnabod bod cynnydd wedi ei wneud mewn trin cyffuriau yn y ddegawd a aeth heibio gydag atebwyr yn tynnu sylw at fynediad haws i driniaeth, cyfnodau aros byrrach a thystiolaeth gref o effeithlonrwydd (megis amcangyfrifon NICE) fel nodweddion effeithlon o'r system driniaeth bresennol.

“Byddai DrugScope yn tanlinellu tyfiant llwyddiannus y system driniaeth bresennol gyda mynediad i'r system driniaeth i dros 200,000 o oedolion a thua 25,000 dan 18 yn 2008-09; ar gyfartaledd, y cyfnod aros lawr i lai nag wythnos; tua 195,000 o oedolion mewn ‘triniaeth effeithlon’ (gan gydnabod terfyn o 12 wythnos fel mesur dibynadwy o effeithlonrwydd); a bron i 25,000 o oedolion yn cwblhau triniaeth gyffuriau yn rhydd o ddibyniaeth. Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad pellach i adferiad a chanlyniadau triniaeth (er enghraifft yn ‘Commissioning for Recovery’ yr NTA) ac i datblygu'r gweithlu (yn benodol gyda chreu'r Consortiwm Sgiliau Camddefnydd o Sylweddau.”

Fodd bynnag, roedd atebwyr hefyd yn tynnu sylw at bwysau biwrocratiaeth sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd, prinder gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr sylweddau oherwydd y ffocws ar rai defnyddwyr cyffuriau (PDUs) (y rhai hynny sydd yn ddibynnol ar crac a / neu heroin) a'r diffyg triniaeth rheng 4.

“Llai o bwyslais ar dargedau, llai o lenwi ffurflenni, mwy o gefnogaeth i iechyd emosiynol, mwy o ddewis fel bod triniaeth wedi ei deilwria ar gael.”

Teimlai atebwyr bod angen cyflunio'r system driniaeth er mwyn trin anghenion y cleientiaid yn hytrach na ffocysu ar y sylweddau maent yn eu defnyddio, gyda llawer yn cefnogi symud y ffocws oddi ar y PDUs i ganiatáu ffocws newydd ar symbylyddion megis yr hyn a elwir 'legal highs', cyffuriau a ragnodir a'r rhai y gellir eu prynu dros y cownter a diodydd meddwol. Awgrymodd llawer o bobl, mewn cyfnod pan fydd arian yn brin, gallai rhannau adnoddau rhwng gwasanaethau cyffuriau a diodydd meddwol fod yn ffordd effeithiol o weithredu a gyda chynnydd yn y defnydd o aml -sylweddau teimlwyd y byddai dwyn y gwasanaethau hyn at ei gilydd, yn ogystal â lleddu ffocws triniaeth cyffuriau, yn cynnig buddiannau clinigol hefyd.

“Bu llawer o'r pwyslais ar ddefnyddwyr cysglynnau a cocên crac, gydag ond ychydig o gyfleoedd i wasanaethu'r rhai hynny sydd yn defnyddio amffetaminau neu symbylyddion eraill. Mae llawer nad ydynt hyd yn oed yn cael eu derbyn ar gyfer triniaeth. Dylai gwasanaethau cyffuriau fod ar gael ar gyfer y rhai hynny sydd yn eu camddefnyddio ac yn ddibynnol, heb gyfeirio yn benodol at gyffur arbennig neu ddioddydd meddwol . Byddai hyn yn berthnasol hefyd i'r rhai hynny sydd yn ddibynnol ar gyffuriau a ragnodir.”

Roedd llawer yn gweld bod gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE) swyddogaeth yn y dasg o helpu ataliad er bod llawer o syniadau gwahanol ynghylch sut oedd gwneud hyn yn effeithiol. Awgrymodd rhai y gallai'r PHE gydlyn ymdrechion lleol gyda phartneriaid lleol megis ysgolion a heddluoedd; teimlai eraill y dylid ffocysu eu swyddogaeth ar ymgyrchoedd cenedlaethol. Teimlai'r rhan fwyf o atebwyr y dylai unrhyw gyngor a ddaeth gan y PHE fod yn ddiuedd ac wedi ei seilio ar dystiolaeth.

“Byddai DrugScope yn cefnogi'r gwasanaeth iechyd cyhoeddus trwy gael swyddogaeth hybu iechyd ac ataliad parthed defnyddio cyffuriau a diodydd meddwol . Dylai hyn ymateb i dystiolaeth o beth sydd yn gweithio. Mae potensial i integreiddio'n well negeseuon am y niwed a ddaw o gamdefnyddio cyffuriau i negeseuon mwy cyffredinol am iechyd cyhoeddus.”

Barn yr atebwyr, yn gyffredinol, oedd bod angen gweithlu sgilgar a brwdfrydig i drin defnyddwyr cyffuriau yn llwyddiannus ac roedd cefnogaeth i'r syniad o fwy o hyfforddiant ac achrediad i'r rhai oedd yn gweithio ym maes cyffuriau. Roedd yna deimlad yn gyffredinol hefyd y byddai lleihad yn y llwyth gwaith biwrocraidd o fudd i weithwyr cyffuriau ac i'r system drin cyffuriau ehangach.

“Cyrff cefnogol fel yr FDAP a'r Consortiwm Sgiliau newydd i barhau i ddatblygu'r fframwaith sgiliau ar gyfer gweithwyr cyffuriau a diodydd meddwol. Cynnig hyfforddiant i'r gweithlu yn y triniaethau ymyrraeth diweddaraf a helpu'r gweithlu i gynyddu eu huchelgais ar gyfer y cleient.”

Roedd llawer o bobl yn gofidio am yr agenda adfer yn gyffredinol a sut gallai triniaeth fod yn rhan o'r agenda hon. Awgrymwyd dwyn ynghyd y gwasanaethau triniaeth, cyflogaeth a thai i gyd dan un ymbarél; awgrymwyd hefyd cael gweithwyr allweddol a phrotocolau ar y cyd rhwng gwasanaethau lleol.

“Mae rhai ymarferion gwaith sydd a sefydlwyd wedi tueddu i greu seilos, lle nad yw pob grŵp proffesiynol o angenrheidrwydd yn cysylltu ag eraill. Cred Adfam y gallai cynnydd mewn cyfathrebu a gweithio ar y cyd rhwng asiantaethau fod o fudd i'r system a'i ganlyniadau fel ei gilydd”w

Pan ofynnwyd am ddal comisiynwyr yn atebol roedd cytundeb yn gyffredinol bod angen gwneud hyn ar sail tystiolaeth o gyflenwi ochr yn ochr â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, gyda llawer yn awgrymu y dylid seilio'r canlyniadau ar adferiad. Cafwyd cefnogaeth hefyd i'r syniad o daliadau fesul canlyniadau neu gysylltiadau eraill rhwng perfformiad a chyllido. Yn ogystal â hyn, awgrymodd atebwyr y dylid dal comisiynwyr yn atebol yn lleol gan bartneriaid oedd â diddordeb mewn trin cyffuriau megis byrddau iechyd lleol a heddluoedd.

“Sicrhau bod cyllido ar y cyd ar gael fel bod manteision mewn un ardal o ymyrraeth sydd yn golygu canlyniadau mewn sawl ardal arall yn cael y gwobrau haeddiannol, a'u bod o fudd i gomisiynwyr gyrchu at y nod o ddefnyddio gwasanaethau ar y cyd.”

YMATEB Y LLYWODRAETH

Mae'r strategaeth yn dangos sut bydd y system driniaeth yn cael ei hail gloriannu er mwyn ffocysu ar adferiad a galluogi pobl i fyw heb gyffuriau ac aildechrau eu bywydau.

Bydd y system driniaeth yn galluogi'r gwasanaethau sydd ynghlwm ag adferiad i fod yn rhan o systemau sydd yn gweithio ar y cyd. Arweinir y gwaith hyn yn lleol gyda chyfarwyddwyr iechyd cyhoeddus lleol yn a chwarae rhan allweddol wrth gyflenwi gofal effeithiol, hyblyg wedi ei ganoli ar bobl.

Bydd y system yn symud i ffwrdd o'r dulliau gweithredu blaenorol ac yn ffocysu ar ganlyniadau adferiad sydd o bwys.

PENNOD 5: CEFNOGIADFERIADER MWYN TORRI CYLCH DIBYNNIAETH AR GYFFURIAU

Gofynnwyd i atebwyr roi sylwadau ar adfer ac ailgyfannu, materion a wynebir gan y rhai hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl a chyflogaeth a dewisiadau tai i'r bobl sydd yn ddibynnol ar gyffuriau a diodydd meddwol. Gofynnwyd iddynt hefyd roi sylwadau ar ymyrraeth teuluol, anghenion rhieni a'r system fudd-daliadau ehangach.

CRYNODEB O'RYMATEBION

Roedd yr atebwyr wedi tanlinellu'r angen am fwy o weithio holistig ar y cyd rhwng sefydliadau mewn perthynas â rhyddhau carcharorion, delio gyda phroblemau iechyd meddwl, chwilio am gyflogaeth ar gyfer pobl sydd yn ddibynnol ar gyffuriau a diodydd meddwol, a sicrhau bod ymyrraeth teuluol yn llwyddiannus.

'Dylid cyflunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cleientiaid gyda phroblemau cyffuriau /diodydd meddwol yn derbyn gwasanaeth holistig sydd yn mynd i'r afael â'u hanghenion cymhleth. Gall gofal arbenigol sydd wedi ei ganoli ar gleientiaid wella ansawdd bywyd a lleihau'r defnydd o gyffuriau a diodydd meddwol. Gall cefnogaeth parthed llety, gweithgarwch cymdeithasol diogel a gofal iechyd corfforol wella canlyniadau i'r grŵp hyn o gleientiaid.'

'Staff wedi eu hyfforddi a gwasanaethau wedi eu cyd-leoli. Gwella cynadledda achosion.'

Dro ar ôl tro nodwyd bod y materion oedd yn wynebu pobl oedd yn ddibynnol ar gyffuriau neu ar diodydd meddwol yn cynnwys hanes o droseddau a'r stigma o droseddau a/neu camddefnyddio cyffuriau. Roedd y rhain, ochr yn ochr â'r bwlch yn y cv, i'w gweld yn codi ffiniau rhag ailymuno â'r gymdeithas ar ôl cyfnod mewn carchar, cael hyd i rywle addas i fyw a chael gwaith.

'Yn y lle cyntaf mae'r stigma o droseddoli ac o gael cofnod troseddol yn chwalu yn llwyr pob gobaith o gael gwaith yn y dyfodol.'

Awgrymwyd mai'r ffyrdd i fynd i'r afael â'r materion hyn oedd cynnig cefnogaeth a rhannu gwybodaeth gyda landlordiaid a chyflogwyr, law yn llaw â gwasanaethau cefnogi ehangach. Teimlwyd y dylid datblygu'r math hyn o ymyrraeth a datrysiadau ar draws yr asiantaethau, gan danlinellu'r pwysigrwydd o gyd-weithio er mwyn gwneud yn fawr o'r help lleol.

Yn benodol, roedd atebwyr yn awyddus i weld ffocws ar sgiliau 'meddal', trin dyledion, atal aildroseddau a hybu hyder. Gwelwyd bod y pwyntiau trosi yn nhaith y cwsmer yn cynnig cyfleoedd cryf ar gyfer ymyrraeth llwyddiannus, yn bennaf rhyddhau o garchar, yn enwedig pan fo hynny wedi ei gynllunio'n ofalus. Teimlai rhai atebwyr bod agwedd swyddogion yn feirniadol.

'Datblygu perthynas gyda busnesau i dderbyn pobl ar gyfer eu gosod mewn gwaith – gyda chefnogaeth gan y gwasanaethau cyfiawnder troseddol a chyffuriau.'

Cafwyd ymateb cymysg mewn perthynas â swyddogaeth yr amodau sy'n wynebu pobl sy'n ddibynnol ar gyffuriau neu ar diodydd meddwol. Awgrymodd y rhai hynny nad oeddynt yn cytuno â sancsiynau

yn y byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn troseddau. Roedd y rhai hynny oedd yn meddwl y gellid defnyddio sanctiynau yn tanlinellu'r angen i'r cyfyngiadau amser fod yn realistig.

'Rydw i'n creu bod cael gwared ar yr angen i chwilio am waith, tra bo rhywun yn cael triniaeth, yn ffordd ymlaen fwy realistig a chadarnhaol, cyhyd â bod y cyfnod amser yn sylweddol a realistig o fewn fframwaith o flwyddyn, o leiaf, yn y mwyafrif o achosion. Nid yw'n bosibl ymdrin, o fewn ychydig wythnosau neu fisoedd, gydag arferion o gamddefnyddio sydd wedi eu hen sefydlu.'

Gwelwyd bod teuluoedd ac ymyrraeth y teulu yn hynod o bwysig ac yn adnodd angenrheidiol ac gyfer gwellhad, gydag angen i'r gwasanaethau cyffuriau a diodydd meddwol wneud mwy i gysylltu gydag aelodau eraill o'r teulu a darparu adnoddau addas i blant. Nododd rhai atebwyr bod yr unigolyn sydd yn gwella eisiau ymwneud â'r teulu ehangach. Gall fod llawer rheswm dros ystyried bod hyn yn anaddas, megis lle bu hanes o wrthdaro.

Awgrymodd atebwyr bod cyplau sydd yn camddefnyddio yn aml ond mor gryf â'r partner gwannaf. Mae cyfrinachedd a'r canlyniad o ddatgelu camddefnydd o gyffuriau yn faterion pwysig lle bo plant yn y cwestiwn; gall menywod yn benodol fod yn amharod i chwilio am neu fod yn rhan o gynllun triniaeth os byddant yn meddwl bod posibilrwydd y caiff eu plant eu rhoi mewn gofal. Aeth sefydliad sy'n cefnogi lesbiaid, a phobl hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) ati i ddangos yr angen i fod yn ymwybodol o gwsmeriaid LGBT, o gofio bod rhagfarn yn aml yn rhan o berthnasau teuluol y cwsmeriaid hyn.

Teimlai atebwyr bod gan deuluoedd lawer o botensial i gael effaith gadarnhaol ar wellhad, ond nodwyd hefyd bod hyn ond yn bosibl os yw'r mater yn cael ei drin yn sensitif.

YMATEB Y LLYWODRAETH

Mae ymrwymiad yn y strategaeth i annog agwedd 'teulu cyfan' i ddarparu gwasanaethau adfer, ac i ystyried cynnig hawl i wasanaethau cefnogol i deuluoedd a gofalwyr.

Mae'r Strategaeth Gyffuriau yn rhoi unigolion wrth galon y broses o adferiad trwy gydnabod barn yr atebwyr mai proses holistig yw'r broses o adferiad: dylai gwmpasu ystod anghenion y person gan gynnwys, er enghraifft, tai, cyflogaeth, trin dyledion ac ymdrin â chwalu teuluoedd.

Am y rheswm hyn mae'r strategaeth yn argymhell agwedd 'system gyfan' ac yn herio pob asiantaeth i gydweithio yn lleol i helpu'r rhai hynny sydd yn ceisio gwella i ddychwelyd at eu cymunedau a gwneud cyfraniad cadarnhaol. Mae'n cydnabod pryderon atebwyr ynghylch gorfodi rheolau budd-daliadau ond hefyd eu gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd a gynigir gan amodau wedi eu teilwria ar gyfer y rhai hynny sydd yn dewis mynd i'r afael â'u problemau.

Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau bod y system fudd-daliadau yn cefnogi gweithio gyda'r gwasanaethau adfer.

PENNOD 6: CASGLIADAU

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu i strategaeth ymgynghori cyffuriau 2010. Byddwn yn parhau i gysylltu â chi parthed y strategaeth ymgynghori cyffuriau a gweithredu'r strategaeth.

Rydym wedi ymrwymo i adolygiad parhaus o'r strategaeth gyffuriau. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i dystiolaeth newydd a chynnal asesiad parhaus o'r canlyniadau. Mae hyn yn angenrheidiol os yw'r strategaeth am fod yn ddogfen ddeinamig sydd yn datblygu.

ATODIAD I

HOLIADUR YMGYNGHORI

www.homeoffice.gov.uk/publications/consultations/cons-drug-strategy-2010/

ATODIAD 2

SEFYDLIADAU ATEBWYR

Derbyniwyd 1850 ymateb i'r strategaeth ymgynghori ar gyffuriau a hynny oddi wrth ystod eang o bobl â diddordeb yn y pwnc. Roeddynt yn cynnwys:

- **Gweithwyr Iechyd Proffesiynol** e.e. Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol
- **Unigolion** e.e. Pobl â diddordeb yn y maes hwn am resymau personol/teuluol
- **Partneriaethau Lleol** e.e. Timau Gweithredu ar Gyffuriau (a diodydd meddwol) (DATs/DAATs), Partneriaethau Cymunedau Diogel (CSPs), Partneriaethau Strategaeth Lleol
- **Asiantaethau Plismona** e.e. Heddluoedd, Cwnstabiliaid, ACPO
- **Awdurdodau Lleol** e.e. Cyngorau Sir/Ardal, Cyngorau Bwrdeistref, Gwasanaethau Cymdeithasol, gwasanaethau addysg a phroffesiynol, gwasanaethau pobl ifanc a theuluoedd
- **Trin Cyffuriau/ Cyflenwyr Gwasanaethau** e.e. Canolfannau adsefydlu a thriniaeth, canolfannau galw-heibio a gweithwyr allgymorth
- **Grwpiau Elusennol a Gwirfoddol** e.e. Drugscope, NACRO, Phoenix
- Grwpiau Lobio/Gweithredu/ Dwyn Pwysau e.e. Transform, Legalise Cannabis Alliance
- **ACMD, a'i aelodau**
- **Llysgenadaethau a Chomisiynau y DU dramor**

